

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 19eg o Fai 2020

Presennol: Cyng. Sharon Wyn Parry (Cadeirydd)
Cyng. Celfyn Furlong
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Siân Enfys Jones
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gordon Owen, William Victor Owen a Beryl Salisbury.
2. **Datganiad o ddiddordeb: - dim**
3. **Cofnodion cyfarfodydd diwethaf**
Derbyniwyd fod y cofnodion 17 Mawrth 2020 a 21 Ebrill 2020 yn gywir - (Cynnig Cyng. Dyfed Williams, eilio Cyng. Gwilym O. Jones.)
4. **Materion yn codi o'r cofnodion:**
 1. Deddfwriaeth ar gynnal cyfarfodydd – Dosbarthwyd canllawiau manwl ar gynnal cyfarfodydd anghysbell yn ystod yr argyfwng COVID 19.
 2. Cae Chwarae - Dim byd pellach i'w adrodd.
 3. Llwybrau - roedd y problemau gyda llwybr troed rhif 15 (Ysgubor Bach) yn parhau. Penderfynwyd gofynnwyd i GMS Garden Services dorri darnau penodol o'r lwybrau troed a nodwyd gan y Cyng. Dyfed Williams. Roedd y rhain yn bennaf ar lwybrau rhif 4,5,10,14,20,27 a 28. Nodwyd fod llwybr troed 27 angen sylw brys. Byddai'r clerc yn cynhyrchu copïau o'r mapiau ar gyfer aelodau.
 4. Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion – dim.
5. **Penderfyniadau Cynllunio: dim**
6. **Ceisiadau Cynllunio - dim**

LUE/2020/8 27 Zealand Park, Caergeiliog

Cais am dystysgrif defnydd arfaethedig o'r datblygiad oherwydd bod gwaith sylweddol wedi cychwyn ar ganiatad 32C192A er mwyn diogelu'r caniatâd hwnnw ar dir gyferbyn - Roedd Cyng. Einir Thomas wedi hel tystiolaeth ffotograffig bod y gwaith wedi cychwyn fel y disgrifiwyd gan yr ymgeisydd.

7. Materion Ariannol / Financial Matters

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol am y cyfnod 1.4.2020 hyd at 30

Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Ebrill 2020 ynghyd â Chysyniadau a Datganiadau Banc.

Cyfrif Cyfredol £16,214.21, Cyfrif Cadw £3,936.63

8. Taliadau i'w gwneud / Payments to be made

Cyflog Ebrill	£237.09	GMS	£108
BHIB Insurance	£1625.63		

Cytunwyd i dalu y rhain

9. Gohebiaeth

1. Diweddariad Archwilio a Hysbysiadau Archwilio Newydd - Eglurhad gan Swyddfa Archwilio Cymru o'r hyn a ddisgwyliid mewn perthynas â chyflwyno'r Ffurflen Flynyddol, cyhoeddi'r cyfrifon blynyddol ac ati.
2. Tarian Cymru - Cefnogaeth Gan Gynghorau Môn - cais am arian i brynu dillad amddiffynnol personol - cytunwyd i edrych ar hyn y mis nesaf.
3. Cyhoeddiad Brys – Ail-Agor Ceisiadau Lleoedd Lleol Ar Gyfer Natur I Gynghorau Cymuned A Thref: Dyddiad Cau Nesaf 26 Mai 20 - cytunwyd nad oedd y Cyngor mewn sefyllfa i ystyried prosiectau o'r fath ar hyn o bryd.
4. E-fwletin Covid-19 Rhifyn 3 Medrwn Môn
5. COVID 19: canllawiau wedi'u diweddarau ar angladdau /
6. Llythyr parthed offer chwarae - Roedd Kenton Jones Ltd. wedi ysgrifennu at breswylwyr Stad Treifan i ofyn pa fath o offer chwarae oedd y plant eisiau iddynt adeiladu ar y cae chwarae. Roedd nifer o syniadau wedi'u cyflwyno eisoes ond roedd peth amser i fynd cyn y byddai angen gwneud penderfyniad gan fod y datblygiad ar ei hôl hi.

10. Adroddiadau Cynghorwyr

1. Roedd Cyng. Gwilym Owen Jones wedi derbyn cwyn am y difrod a oedd yn cael ei achosi i'r twyni tywod yng Nghymyran. Cyfeiriwyd y mater at Fwrdd Gofalwyr Tywyn Trewan.
2. Roedd Cyng. Sharon Parry yn parhau i weithio yn agos gyda gwirfoddolwyr yn cefnogi preswylwyr bregus yn y gymuned.

11. Cyfarfod Nesaf – 16 Mehefin 2020.

Llofnod.....Cadeirydd.....